WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL

## ARFERION DIOGELU CADARNHAOL

Arferion diogelu cadarnhaol yw thema rhaglen eang ei chwmpas sy'n cael ei chynnal ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Wythnos Diogelu Genedlaethol, sy'n dechrau ar 10 Tachwedd 2025. Cydlynwyd y rhaglen gan CWMPAS a CYSUR, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac eleni fe'i cynlluniwyd mewn ymateb i rai o'r themâu a materion diogelu sydd wedi dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae uchafbwynt yr wythnos yn cynnwys cynhadledd ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth, a gynhelir yn yr Egin, Caerfyrddin. Bydd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai gan brif siaradwyr ac yn cynnwys cyflwyniad ar ganlyniad a chanfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd yn dilyn yr hyn a ddigwyddodd yn Southport ym mis Gorffennaf 2024, gwybodaeth am fodel ymarfer y newid mwyaf arwyddocaol, bregusrwydd mewn niwroamrywiaeth, defnyddio deallusrwydd artiffisial i gefnogi rhannu gwybodaeth, ochr yn ochr â mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd â phrofiad bywyd.

Yn ystod yr wythnos, byddwn hefyd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweminarau a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac amlygu materion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cynnwys gweminar sy'n ailedrych ar elfennau allweddol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a sut y dylid eu cymhwyso mewn ymarfer diogelu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, cyd-destunau a senarios. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cynnal gweminar yn rhannu canfyddiadau adolygiad thematig 2025 o adolygiadau ymarfer oedolion yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cynnal gweminar sy'n tynnu sylw at wasanaeth sy'n rhad ac am ddim ar gyfer diogelu pobl agored i niwed â dementia, sydd mewn mwy o berygl o fynd ar goll (Protocol Herbert). Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, bydd mewnbwn gan grwpiau trydydd sector a grwpiau annibynnol gyda digwyddiadau gan New Pathways, Sefydliad Lucy Faithfull Cymru, NSPCC Cymru a Mind Llanelli.

**I gael gwybodaeth lawn am ein holl ddigwyddiadau, cliciwch ar y dolenni cofrestru yn y rhaglen hon a sganiwch y codau QR i archebu lle yn y digwyddiadau.**

| | |
|---|---|
| **DRWY'R WYTHNOS** | GWEFAN: Gwybodaeth a Newyddion<br><br>Rhannu adnoddau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a themâu rhanbarthol |

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| **DRWY'R WYTHNOS** | Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Hyrwyddo a Rhannu Gwybodaeth<br><br>Rhannu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig â'r thema 'Arferion Diogelu Cadarnhaol', a hyrwyddo digwyddiadau rhanbarthol.<br><br>#SafeguardingWales #DiogeluCymru |

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD LLUN, 10 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**9:30am**

### Sicrhau diwylliant cadarnhaol o ddiogelu – New Pathways

**Microsoft Teams, 9:30am—11:00am**

**Cyflwynydd: Nicole James**

Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o beth yw diwylliant cadarnhaol o ddiogelu, pam ei fod yn angenrheidiol ar gyfer pob sefydliad/lleoliad, a sut i sicrhau bod gennych un sy'n cydymffurfio ag amrywiol ddeddfwriaethau a chanllawiau diogelu.

Bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy'r gwahanol elfennau o greu, ymgorffori a chryfhau diwylliant cadarnhaol o ddiogelu ym mhob agwedd ar eich gweithrediadau o ddydd i ddydd.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/Twk7yVyj6e**

## RHANBARTHOL

**2:00pm**

### Adolygiad thematig o adolygiadau ymarfer oedolion yng Nghymru

**Microsoft Teams, 2:00pm-4:00pm**

**Cyflwynydd: Yr Athro Michelle McManus**

Mae adolygiadau ymarfer oedolion yn gyfle hanfodol i ddysgu o achosion lle mae oedolion sy'n wynebu risg wedi profi niwed sylweddol neu farwolaeth, gan nodi cryfderau a gwendidau systemig o fewn ymarfer diogelu. Wedi'i gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, dadansoddodd yr adolygiad thematig hwn o 2025 25 o adolygiadau ymarfer oedolion yn ymdrin â digwyddiadau yng Nghymru rhwng 2016 a 2022.

Bydd y weminar hon yn rhannu canfyddiadau o'r adolygiad thematig ac yn archwilio'r goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer yng Nghymru.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/aP5nzx2aF8**

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

### HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 11 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

## Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin

**Gweithdy grymuso corfforol – ymarfer sy'n ystyriol o drawma**

Dyddiad/amser: 11 Tachwedd 2025, 2.30pm – 4pm

Hwylusydd: Philippa Martin

Lleoliad: Parc Dewi Sant, Caerfyrddin

Archebion: **Ar agor i staff Sir Gaerfyrddin a staff allanol**

**Am weddill yr wythnos**

12 Tachwedd – Grŵp B: Diogelu plant ac oedolion

11 a 12 Tachwedd – Grŵp C: Diogelu (oedolion)

***Ar agor i staff Sir Gaerfyrddin yn unig***

**Cyn yr wythnos**

4 a 5 Tachwedd – Grŵp C: Diogelu (oedolion)

6 Tachwedd – Grŵp B: Oedolion

7 Tachwedd – Grŵp 3: Gofyn a Gweithredu

***Ar agor i staff Sir Gaerfyrddin yn unig***

**Yr wythnos ganlynol**

17 Tachwedd – Grŵp B: Diogelu (oedolion)

18 Tachwedd – Grŵp C: Diogelu (plant)

19 Tachwedd – Grŵp A: Diogelu (oedolion a phlant)

***Ar agor i staff Sir Gaerfyrddin yn unig***

**Er mwyn archebu lle, bydd angen i bobl wneud cais drwy dudalennau gwe Dysgu a Datblygu ar wefan Sir Gaerfyrddin.**

**https://intranet/our-people/learning-and-development/social-care-wales-workforce-development-programme-scwwdp/core-training/**

**Dylai staff mewnol yn Sir Gaerfyrddin archebu drwy blatfform Thinqi, gan archebu drwy eu cyfrif dysgu.**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 11 TACHWEDD

**RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL**

## Heddlu Dyfed–Powys

Hyrwyddo/mewnbynnau ynghylch Ymgyrch Makesafe a Phrotocol Herbert drwy gydol yr wythnos (ar draws yr heddlu) gan dimau plismona bro Heddlu Dyfed-Powys.

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 11 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**10am – 10.45am – Diogelu plant ac oedolion – Yn ôl at y pethau sylfaenol**

Bydd Kim Bond (ymarferydd diogelu oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) ac Emma Baddeley (ymarferydd diogelu plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) yn cyflwyno sesiwn sy'n rhoi trosolwg o ddiogelu plant ac oedolion: nodi arwyddion a ffactorau risg ar gyfer cam-drin, deall llwybrau atgyfeirio byrddau iechyd, a cheisio cyngor/cymorth. *(Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig)*

**11am – 11.45am – Digwyddiad gwybodaeth am gynllunio rhyddhau**

Bydd Laura Froggatt (prif nyrs Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Dawn Alberto (uwch-nyrs Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) yn cyflwyno sesiwn hyfforddi i staff ynghylch cynllunio rhyddhau a'r gwasanaethau sydd ar gael. Bydd gwybodaeth am sut i gyfeirio at y gwasanaethau hynny. Cyflwynir y sesiwn drwy gyfrwng Teams. *(Digwyddiad amlasiantaeth)*

**12pm – 12.45pm – Camfanteisio'n rhywiol ar blant – lledaenu canllawiau ymarfer Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u diweddaru**

Bydd Tîm Diogelu Plant a Thîm Plant sy'n Derbyn Gofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnal sesiwn hyfforddi i staff er mwyn deall mwy am yr holiadur risg ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyflwynir y sesiwn drwy gyfrwng Teams. *(Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig)*

**1.30pm – 2pm – Lansio sesiynau goruchwylio diogelu oedolion**

Bydd Sarah Rogers (ymarferydd arbenigol diogelu oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) yn cyflwyno sesiwn fer i roi gwybodaeth am y sesiynau goruchwylio grŵp diogelu oedolion newydd a fydd ar gael i bob aelod o staff clinigol eu harchebu. Cyflwynir y sesiwn drwy gyfrwng Teams. *(Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig)*

**2.30pm – 3pm – Hyfforddiant ffurflen atgyfeirio Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)**

Bydd Rachel Munkley (nyrs arweiniol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) yn cyflwyno sesiwn fer i roi gwybodaeth am y broses newydd ar gyfer y ffurflen atgyfeirio Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg. Cyflwynir y sesiwn drwy gyfrwng Teams *(staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig).*

3.30pm – 4pm – **Cartref yn gyntaf: adeiladu gofal canolraddol yn Sir Gaerfyrddin; symleiddio gofal yn nes at ble mae pobl yn byw**

Drwy waith gofal canolraddol, mae nifer y bobl sydd angen presgripsiynau cymdeithasol hirdymor wedi lleihau. Drwy ddefnyddio gweithwyr proffesiynol fel therapïau, timau nyrsio, meddygon teulu, ymarferwyr nyrsio uwch, uwch-ymarferwyr parafeddygol a gweithwyr cymdeithasol, mae gennym ni foeseg gwaith tîm amlddisgyblaethol wedi'i gydleoli. Mae hyn yn galluogi blaenoriaethu, atgyfeiriadau, trafodaethau a chynlluniau di-dor. Rhaid i ni weithio gyda'n gilydd yn ddoethach, nid yn galetach, i eirioli dros anghenion ein poblogaeth (Ymhellach, Yn gyflymach, 2023). Wedi'i gyflwyno gan Leah Williams (rheolwr prosiect Ardaloedd Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Marie Smith (rheolwr tîm gwaith cymdeithasol). Cyflwynir y sesiwn drwy gyfrwng Teams. *(Digwyddiad amlasiantaeth)*

**I gofrestru ar gyfer unrhyw un o'r sesiynau hyn, a fydd yn cael eu cyflwyno fel gweminar drwy MS Teams: https://forms.office.com/e/yJT8cQ4ZNb**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 11 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

### Awdurdod Lleol Powys / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Fforwm arfer da amlasiantaethol**

Fforwm cydweithredol sy’n arddangos arferion effeithiol ar draws asiantaethau o ran helpu pobl ifanc i bontio i fod yn oedolion.

Microsoft Teams: 9.30am – 11am **Yn agored i staff Powys yn unig.**

**Gweminar offeryn esgeulustod**

Cyflwynir yr offeryn esgeulustod, sy’n cefnogi ymarferwyr i nodi ac ymateb i esgeulustod yn fwy effeithiol, gan Gillian Ryan.

Microsoft Teams: 11.30am – 12pm **Yn agored i staff Powys yn unig.**

**Hyfforddiant rhanbarthol ymgysylltu â thadau**

Ymunwch â Stephen Pearce am sesiwn sy’n canolbwyntio ar ymgysylltu â thadau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Dysgwch am ragfarn ac ymgysylltiad teuluol cynhwysol.

Microsoft Teams: 1pm – 3pm **Yn agored i staff Powys a staff allanol.**

**Gweminar goruchwylio amlasiantaeth**

Mae’r weminar hon yn archwilio goruchwyliaeth sy’n cefnogi arfer diogelu amlasiantaethol dan arweiniad Melanie Brindle.

Microsoft Teams: 3.30pm – 4pm **Yn agored i staff Powys yn unig.**

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle ar y gweminarau, anfonwch e-bost at practice.development@powys.gov.uk

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| DRWY’R WYTHNOS | HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH<br>Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram |
|---|---|

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 12 TACHWEDD

**RHANBARTHOL**

**9.30am**

**Y tu hwnt i annibendod: y matrics diogelu a'r ymateb amlasiantaethol i gelcio**

**Microsoft Teams: 9.30am – 11.30am**

**Hwylusir gan Llanelli Mind**

Mae'r gweithdy hwn, dan arweiniad Llanelli Mind, wedi'i gynllunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol diogelu ar draws gwasanaethau statudol a'r trydydd sector sy'n aml yn dod ar draws unigolion y mae eu hymddygiadau celcio yn peri risg sylweddol ac sydd ag anghenion cymorth cymhleth.

Bydd y sesiwn yn archwilio'r materion seicolegol, ymarferol a systemig dwfn sy'n ymwneud ag anhwylder celcio a bydd yn rhoi golwg gynhwysfawr i ymarferwyr ar sut i adnabod, asesu a chefnogi unigolion sydd mewn perygl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. www.Llanelli-Mind.org.uk

**I archebu, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/0kJA6Z3gXy**

**RHANBARTHOL**

**2:00pm**

**Deddf Galluedd Meddyliol 2005 – seminar**

**Microsoft Teams: 2pm – 3.30pm**
**Hwylusir gan Mark Evans**

Bydd y seminar hwn yn ailedrych ar arferion elfennau allweddol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a sut y dylid eu cymhwyso mewn ymarfer diogelu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, cyd-destunau a senarios. Bydd yn archwilio'r heriau o weithio gydag unigolion lle mae angen cymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gynnwys meysydd o ansicrwydd ac ystyriaethau allweddol wrth gynnal asesiadau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

**I archebu, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/106KGASCqM**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**4:00pm**

### YDYCH CHI'N GWEITHIO GYDA NEU'N GOFALU AM RYWUN SY'N BYW GYDA DEMENTIA? – PROTOCOL HERBERT

Microsoft Teams: 4pm – 5pm

**Cyflwynydd: Robert Burley (MedicAlert)**

Dewch draw i ddarganfod sut allwch chi helpu i gadw pobl sy'n byw gyda dementia yn ddiogel, yn annibynnol ac yn gysylltiedig, ac yn byw yn eu cymuned. Dewch i glywed sut mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn mewn partneriaeth â MedicAlert a Heddlu Dyfed-Powys yn diogelu pobl agored i niwed â dementia, sydd mewn perygl uwch o fynd ar goll. https://herbertprotocol.com/

I gofrestru, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/pL9akhVC5E

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

### HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 12 TACHWEDD

## Digwyddiad Cenedlaethol

### Cynhadledd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol—9:30am-3:00pm

**9:30am**

Ar gyfer 2025, ein ffocws yw 'Arwain o brofiad byw mewn diogelu: Gwrando, dysgu a gwreiddio mewn ymarfer'. Bydd y Prif

Siaradwyr yn cynnwys:

· Prifysgol Metropolitan Manceinion yn adrodd ar yr Adolygiad Thematig Ymarfer Plant sy'n digwydd pob chwe mis.

· Yr Athro Cocker o Brifysgol East Anglia yn archwilio Diogelu Trosiannol.

Un o'r prif ddigwyddiadau eleni fydd rhannu gwersi o garfan o Adolygiadau Ymarfer Plant a gyhoeddwyd ar draws pob rhanbarth, yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.

**Gallwch gofrestru eich lle drwy'r ddolen Eventbrite yma: National Safeguarding Conference Wales/ Cynhadledd Genedlaethol Cymru yngh Tickets, Wed, Nov 12, 2025 at 9:30 AM | Eventbrite**

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

### HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD IAU, 13 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**9:00am**

**Cynhadledd: Arferion cadarnhaol mewn diogelu – cyfres o gyflwyniadau ac yna gweithdai yn y prynhawn**

**9am – 4.30pm** Yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Yn unol â'r thema ranbarthol eleni, sef arfer cadarnhaol mewn diogelu, bydd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yn cynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ddydd Iau 13 Tachwedd rhwng 9am a 4.30pm (cofrestru 9am). Arweinir y gynhadledd gan y ddigrifwraig, cyflwynydd a gofalwr maeth Kiri Pritchard-McLean. *Sylwch fod hwn yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb.*

**Mae'r prif siaradwyr yn cynnwys y canlynol:**

· Tony Jenkyn, awdur Post-Southport review into Prevent and Axel Rudakubana
· Nick Andrews, Prifysgol Abertawe (model ymarfer y newid mwyaf arwyddocaol)

· Donna Sharland, addysg ac ymgynghoriaeth Autside (bregusrwydd mewn niwroamrywiaeth)

· Cath Evans, Rheolwr Prosiect Diogelu LINC (defnyddio deallusrwydd artiffisial i gefnogi rhannu gwybodaeth)

**Archebion nawr wedi'u tanysgrifio'n llawn.**

Bookings Now Fully Subscribed

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD GWENER, 14 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**9:30am**

**Gwydnwch digidol: Sefydliad Lucy Faithfull**

**Microsoft Teams: 9.30am – 12pm**

Hwylusir gan Sefydliad Lucy Faithfull Cymru

I bob oedolyn, wrth i dechnoleg a'r rhyngrwyd newid, felly hefyd y risg i blant. Bydd y weminar hon yn archwilio sut i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein, a bydd yn cynyddu eich hyder wrth gyfathrebu'n effeithiol am ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Bydd y weminar hefyd yn helpu i ddeall deddfwriaeth ac ymddygiadau sy'n peri pryder ar-lein, ac yn ystyried datblygu cynllun diogelwch digidol.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/59QHJhe31G**

## RHANBARTHOL

**1:00pm**

**Canolfan Genedlaethol Atal Masnachu Pobl – Gwasanaeth Gwarcheidwaeth Annibynnol ar gyfer Masnachu mewn Plant a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol**

Microsoft Teams: 1pm – 3pm

Hwylusir gan Ganolfan Genedlaethol Atal Masnachu Pobl

Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Gwarcheidwaeth Annibynnol ar gyfer Masnachu mewn Plant a'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol – Amlinelliad o bwy ydym ni, pryd i atgyfeirio a pha gefnogaeth rydym yn ei chynnig, ochr yn ochr ag archwiliad o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol mewn perthynas â chamfanteisio ar blant a masnachu plant.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/HmM7hGcmBj**

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2025

# DIGWYDDIADUR

DYDD GWENER, 14 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**4:00pm**

**Gweithdy Nid cariad yw hyn—NSPCC Cymru**

**Microsoft Teams: 4pm – 5pm**

Cyflwynydd: Lil Dunn (NSPCC Cymru)

Mae 'Nid cariad yw hyn' yn archwilio themâu perthnasoedd iach ac afiach, gan gynnwys ymddygiadau sy'n ymwneud â cham-drin mewn perthnasoedd rhyngbersonol rhwng cyfoedion ac ymysg teuluoedd. Bydd y sesiwn yn ceisio rhoi canllawiau i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar sut olwg sydd ar berthnasoedd iach ac afiach, ac egluro sut y gall rhywun sy'n cael ei gam-drin mewn perthynas ryngbersonol geisio cefnogaeth.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/hxaqn8Mtvu**

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**DRWY'R WYTHNOS**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram